OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1806

## Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

## RHAN 5

HYSBYSU'R FANGRE

**Gwasanaethau symudol**

**29.**—(1) Os yw cynhyrchydd gwastraff peryglus yn gweithredu gwasanaeth symudol, y fangre berthnasol mewn perthynas ag unrhyw fangre gysylltiedig yw mangre y mae paragraff (2) yn gymwys iddi ("mangre'r gwasanaeth") tra gweithredir y gwasanaeth symudol hwnnw o fewn y terfynau cymwys ac yr ufuddheir i'r cyfyngiad deiliadaeth o ran pob mangre gysylltiedig.

(2) Dyma'r mangreoedd y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddynt—

(a) y fangre lle gweithredir y gwasanaeth symudol; neu

(b) os gweithredir y gwasanaeth symudol o fwy nag un set o fangreoedd, prif le busnes y cynhyrchydd.

(3) Os yw unrhyw fangre—

(a) yn fangre safle ar wahân i'r gwasanaeth symudol; a hefyd

(b) yn fangre mewn perthynas â'r gwasanaeth symudol,

caniateir gwneud un hysbysiad unigol.